Picnic Tedis

Trosolwg

Gall cynllunio digwyddiad thematig arbennig i deuluoedd ei fynychu annog mwy o deuluoedd i ymuno. Crëwch le ar gyfer rhyngweithio chwaraegar sy'n meithrin cydberthnasau cryf.



Gweithgareddau

Gwahoddwch deuluoedd i gerdded gyda'i gilydd a chael picnic tedis. Neilltuwch amser i bawb grwydro'n rhydd gyda'u tedis i archwilio'r man a ddewiswyd gennych, cyn gwahodd pawb i ymgasglu i fwynhau byrbryd/ picnic. Darllenwch stori. Mae ' Dyn ni yn mynd i hela arth yn un dda.
Yna, archwiliwch y themâu yn lleoliad eich picnic ac wrth i chi gerdded yn ôl. Mae cael tedi'n archwilio ar ran yplentyn yn galluogi'r plentyn i bropethau hyn o bell, sy'n meithrin hyder ac yn lleihau gwrthdaro.

Offer

- Man gwyrdd lleol – sydd o fewn pellter cerdded hawdd i'r lleoliad
- Tedi neu degan meddal i bob plentyn
- Byrbryd/Picnic bach (dewisol)
- Rygiau picnic/Tarpolins
- Llyfr da

Cwestiynau allweddol

Anogwch y teuluoedd i ofyn,
"Fyddai tedi'n hoffi…"
"…bwyta darn o fanana?"
"…dringo'r goeden?"
"…gwisgo ei het haul?"
Modelwch y dull Rhannu Sylw, Ymateb, Ehangu a Sgwrsio (Share attention, Respond, Expand and Conversation (ShREC)) fel y gall teuluoedd fabwysiadu'r strategaethau hyn.

Deilliannau dysgu

- Iechyd a lles – rhyngweithio cymdeithasol, rhannu, meithrin cydberthnasau
- Chwarae – archwilio, chwarae cyfochrog, antur
- Llythrennedd – Siarad, gwrando, rhoi pethau yn y drefn gywir, chwarae rôl

Symud y dysgu yn ei flaen

- 'Cuddio'r tedi' – lle mae rhywun yn cuddio'r tedi, yna pawb yn cyfrif, a phawb wedyn yn chwilio amdano gyda'i gilydd. Gall hynny weithio'n dda gyda phlant ifanc sy'n mwynhau chwarae cuddio, heb fod y plant eu hunain yn mynd i guddio.